# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Lots of Tots (Canolfan Maerdy)**

**Ffordd Newydd**
**Tairgwaith**
**Rhydaman**
**SA18 1UP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Gwener, 25 Mai 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cafodd Lots of Tots ei gofrestru ym mis Ebrill 2009 o dan reolaeth Canolfan Maerdy. Ar hyn o bryd, mae'n darparu gofal dydd llawn i hyd at 46 o blant hyd at 12 oed. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o adeilad llawr daear ac mae wedi'i leoli drws nesaf i'r ganolfan gymunedol, sy'n gwasanaethu'r pentrefi cyfagos. Leonard Preece yw'r unigolyn cyfrifol enwebedig ar ran y sefydliad. Anna Rowlands ac Emily Stewart yw'r personau â gofal. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng 7.30am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac mae ar gau dros wyliau banc.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn Lots of Tots yn hyderus ac yn hapus ac mae ganddynt berthnasau da â'u gofalwyr. Maent yn derbyn gofal gan staff cymwys sy'n deall anghenion y plant. Mae gan y plant fynediad i ystafelloedd mawr ag amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar. Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn effeithiol ac mae'r unigolyn cyfrifol yn amlwg ac yn weladwy yn ddyddiol.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae llawr diogel newydd a hwyl gysgodi wedi cael eu gosod yn yr ardal chwarae awyr agored; mae'r fwydlen ddyddiol wedi cael ei hadolygu i gynnig mwy o ddewisiadau; mae gwelyau y gellir eu pentyrru wedi cael eu prynu ar gyfer amser cysgu; ac mae teledu cylch cyfyng wedi cael ei osod yn yr adeilad ynghyd â system fynediad olion bysedd dim ond y staff sy'n gallu cael mynediad iddi. Mae'r arweinwyr wedi ennill gwobr iechyd a chynaliadwyedd genedlaethol, gwobr iechyd yn y gweithle a gwobr sicrhau ansawdd. Mae'r ardaloedd â charped wedi cael eu glanhau'n ddiweddar â siampŵ. Gwnaeth yr arweinwyr weithredu ar ein hargymhellion yn ystod yr arolygiad, gan sicrhau bod yr holl staff a'r plant yn golchi eu dwylo cyn amser bwyd ac ar ôl gweithgareddau anniben. Cadarnhaodd yr arweinwyr fod y plant hŷn bellach yn helpu wrth baratoi byrbrydau. Mae'r arweinwyr wedi atgyfnerthu'r polisi a'r weithdrefn newid cewynnau gyda'r holl staff. Gwnaethant hefyd gadarnhau bod dŵr ar gael ar bob achlysur a bod y staff wedi cael eu hatgoffa i fod yn ymwybodol o gynnig dŵr yn rheolaidd i'r plant iau.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymell bod arweinwyr a staff yn sicrhau bod dewis ehangach o weithgareddau ac adnoddau ar gael i'r plant, ac y cânt eu hannog i fod yn annibynnol ac i gwblhau eu gwaith eu hunain wrth wneud gweithgareddau crefftau.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn Lots of Tots yn hyderus ac maent yn gallu siarad a mynegi eu hunain. Mae ganddynt ymlyniadau cadarnhaol â’u gofalwyr ac maent yn hapus a chyfforddus. Maent yn dechrau parchu eraill a gofalu am yr offer gyda chymorth. Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae gan y plant lais ac maent yn gallu mynegi eu hunain yn dda yn iaith eu cartref.

Gwelsom y plant yn cael cynnig dewis o ffrwythau yn ystod amser byrbryd. Gofynnodd y plant am fwy o ffrwythau a gofynnodd rhai am fwy o laeth i'w yfed. Dywedodd y plant yn hyderus pan oeddent wedi cael digon a gwnaethant ddychwelyd eu platiau a'u cwpanau i'r staff. Ar ôl cael byrbryd, gwnaeth rhai o'r plant ymuno yn y stori We’re Going on a Bear Hunt, ond gwnaeth rhai ddewis sefyll i'r naill ochr a gwylio'r stori'n cael ei hactio gan y staff. Dangosodd un plentyn arwydd o fod yn flinedig, a gofynnwyd iddo petai'n hoffi mynd i orwedd i lawr. Derbyniodd y cynnig ac aeth i orwedd ar fatres er mwyn cysgu. Yn ystod amser cinio, clywsom y plant yn dweud wrth y staff nad oeddent yn hoffi'r pryd ac nad oeddent am fwyta rhagor. Gofynnodd rhai o'r plant eraill am fwy o bwdin a chawsant fwy.

Gall y plant fod yn hyderus bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn y gwasanaeth hwn.

### 1.2 I ba raddau mae’r plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus, yn llawn cyffro ac yn mynegi mwynhad. Mae gan y plant gysylltiadau serchog ag aelodau staff allweddol.

Gwelsom blant yn mynd at eu gofalwyr am gofleidiadau a chysur. Daeth y plant atom ac roeddent am i ni ymuno â'u gweithgareddau chwarae. Gwelsom fod rhai o'r plant yn hoffi aelodau penodol o staff a gwnaethant aros yn agos atynt. Cyrhaeddodd un plentyn yn hwyrach yn y bore ac roedd ychydig yn bryderus. Aeth yn syth at aelod o staff roedd hi'n gyfarwydd ag ef a chafodd goflaid wrth i'r rhiant adael. Gwelsom y plant yn mynd at y gofalwyr i ddweud wrthynt fod plant eraill wedi dweud rhywbeth a oedd wedi'u hypsetio. Gwnaethant wenu wrth i'r staff roi sicrwydd iddynt. Dywedodd y rheini wrthym sut roedd eu plant wedi bod yn ofidus i ddechrau ond bod y staff wedi sicrhau bod y broses ymgartrefu'n hawdd a bod eu plant wedi ymgartrefu'n gyflym.

Caiff y plant eu gwerthfawrogi ac maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus y rhan fwyaf o'r amser.

## 1.3 Pa mor dda mae’r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn hyderus wrth siarad â'i gilydd, eu gofalwyr ac ymwelwyr. Maent yn dechrau rheoli eu hymddygiad.

Clywsom y plant yn trafod y ffrwythau roeddent yn eu hoffi a'r ffrwythau nad oeddent yn eu hoffi. Gwnaethant sgwrsio'n hapus â'i gilydd wrth iddynt fwyta'u byrbryd. Roedd angen atgoffa rhai o'r plant i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' a gwnaeth rhai eraill ddangos cwrteisi heb orfod cael eu hatgoffa. Roedd angen cefnogaeth ar rai o'r plant wrth aros eu tro am gêm, oherwydd roeddent wedi'u cyffroi ac am droi'r 'blwch tapio' cyn eraill, i weld beth oedd yn cuddio oddi tano. Ymatebodd y plant mewn modd cadarnhaol i'r staff yn dweud wrthynt am 'beidio ag anghofio ein dwylo caredig' pan oeddent am chwarae gyda theganau roedd plant eraill eisoes yn chwarae â hwy, a gwnaethant ofyn iddynt neu aros nes i'r plant eraill orffen chwarae gyda nhw.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â pheth cefnogaeth.

## 1.4 I ba raddau mae’r plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae'r plant yn brysur a chwilfrydig ac yn ymgolli yn eu chwarae. Maent yn awyddus i ddangos neu siarad am yr hyn roeddent wedi bod yn ei wneud.

Gofynnodd y plant wrthym yn hyderus yr hyn roeddem yn ei wneud a pham ein bod yno. Gwnaethant fwynhau dweud wrthym yr hyn roeddent yn mwynhau ei wneud ac roedd rhai am i ni ymuno â'u gweithgareddau chwarae. Gwnaeth y plant fwynhau sesiwn stori. Roeddent yn amlwg yn gyfarwydd â’r stori a gwnaethant synau a symudiadau megis 'fflatshio, neidio a baglu' i'r stori We’re Going on a Bear Hunt. Gwnaeth y plant a oedd yn chwarae yn y gornel gartref esgus bod yn rhiant a galw ar y plant i ddod i gael cinio. Ymatebodd y plant iau mewn modd cyffrous, gan guro eu dwylo wrth i'r staff ddechrau canu cân.

Mae'r plant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu ac yn dangos diddordeb a chyffro.

## 1.5 Pa mor dda mae’r plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae’r plant yn manteisio ar gyfleoedd addas i ddysgu a datblygu sgiliau. Collir ambell gyfle i ddatblygu annibyniaeth ymhellach.

Gwelsom y plant yn bwydo'u hunain yn ystod amser cinio, a rhoddodd y plant iau gynnig da ar fwydo'u hunain. Roedd y plant hŷn yn gallu dewis darnau o ffrwythau o hambwrdd mawr o ffrwythau a oedd eisoes wedi'i baratoi gan y staff. Gwnaeth helpwr y dydd ddosbarthu cwpanau o laeth a oedd wedi cael eu tywallt gan y staff i'r plant. Gwnaeth y plant gyfri i ddeg yn hyderus a mwynhau gweithgaredd lle'r oeddent yn rasio i gasglu bag ffa a'i ddychwelyd i'r llinell ddechrau. Roedd plant yn defnyddio’r toiledau’n annibynnol ac yn golchi eu dwylo wedyn.

Mae'r plant yn datblygu ac yn dysgu ond nid ydynt yn cymryd rhan mewn tasgau a allai ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gofal ymatebol sy'n diwallu anghenion unigol. Fodd bynnag, nid yw'r holl aelodau staff yn dilyn arferion hylendid gofalus a pholisïau iechyd yn y gweithle i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Rheolir rhyngweithio mewn modd cadarnhaol ac roedd y staff yn rhoi clod am ymddygiad cadarnhaol. Mae'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae'r rhan fwyaf o'r staff yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn y gwasanaeth.

Gwnaethom drafod sefyllfaoedd diogelu plant gyda'r staff a gwnaethant ymateb yn briodol ac yn hyderus, gan wybod y weithdrefn i'w dilyn pe bai angen. Roedd polisi diogelu'r gwasanaeth yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gwybodaeth am y 'Ddyletswydd Atal'. Roedd y gwasanaeth yn cynnig prydau iach, wedi'u coginio'n ffres, megis pasta a chyw iâr, ac roedd amrywiaeth o anghenion dietegol yn cael eu hystyried. Roedd y staff yn sychu trwynau'r plant yn barhaus a gwelsom aelod o staff yn golchi ei dwylo ar ôl gwneud hyn. Gwelsom gofnodion damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth cyflawn a oedd wedi cael eu llofnodi gan y rhieni.  Roedd y staff yn newid cewynnau'r plant ond nid oeddent bob tro'n dilyn gweithdrefn y gwasanaeth o wisgo ffedog a menig bob tro'r oeddent yn newid cewyn. Nid oedd y plant yn golchi eu dwylo cyn pryd o fwyd nac amser byrbryd, ac nid oedd y staff yn golchi eu dwylo cyn gweini prydau i'r plant. Roedd ffynnon ddŵr ar gael yn yr ystafell chwarae i'r plant hŷn. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y plant yn cael cynnig dŵr nac yn cael eu hatgoffa ynghylch helpu eu hunain. O ganlyniad, nid oedd y plant yn cael diod am bron tair awr. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn sicrhau bod y plant yn chwarae yn yr awyr agored yn rheolaidd, ond ni welsom y plant yn chwarae yn yr awyr agored yn ystod ein hymweliad.

Nid yw'r staff bob amser yn dilyn arferion diogel i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae'r staff yn gyson wrth reoli'r rhyngweithio; roeddent yn canmol ymddygiad cadarnhaol ac yn anwybyddu ymddygiad negyddol.

Gwelsom fod y staff yn siarad â'r plant mewn ffordd dawel a chysurol ac roedd y plant yn cael clod am ymddygiad cadarnhaol: 'Da iawn, ti!' a 'Dyna ffantastig – jobyn gwych!' Enghraifft o hyn oedd pan oedd plentyn wedi cymryd tegan personol plentyn arall o'r cartref. Gofynnodd y staff wrtho i'w ddychwelyd a gwnaeth hynny. Gwnaeth y staff gydnabod hyn a gwenodd wrthynt roi clod iddo. Pan nad oedd plentyn am gymryd rhan mewn gweithgaredd a chrio ar y llawr, sicrhaodd y staff ei fod yn ddiogel ond gwnaethant ei anwybyddu,

oherwydd ei fod am fod ar ei ben ei hun, a gwnaethant barhau â'r dasg. Gwelsom y staff yn cofleidio babanod iau, gan wenu ac ymateb i synau a checian chwerthin ganddynt mewn ffordd hyfryd.

Mae’r staff yn gyson wrth reoli rhyngweithiau mewn ffordd glir, gadarnhaol a phriodol.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn darparu awyrgylch gofalgar ac yn ymatebol wrth roi gofal i’r plant. Roedd y staff yn ymwybodol o hoffterau unigol y plant ac yn gweithredu ar hyn.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn eu gofal yn dda ac roeddent yn ymateb i arwyddion megis blinder. Cynigiwyd i blentyn a oedd yn amlwg wedi cynhyrfu iddo orwedd i lawr oherwydd bod y staff yn gwybod ei fod wedi bod ar ddihun yn hwyr y noson gynt ac nid oedd yn ymddwyn yn ei ffordd arferol. Gwnaethom drafod ag aelod o staff pam nad oedd un plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd crefftau. Dywedodd y staff wrthym nad oedd yn hoffi cael paent ar ei ddwylo a bod yn well ganddo beidio â gwneud y gweithgaredd, felly roeddent wedi mynd ag ef i wneud gweithgaredd arall. Roedd y plant yn creu cardiau'r Pasg ac roedd rhai o'r plant yn cael eu harwain yn gorfforol gan y staff i baentio a phrintio mewn ffordd a oedd yn sicrhau bod y paent yn y lle cywir. Gwelsom lyfrau neu ffurflenni cofnodion dyddiol, a oedd yn cael eu cwblhau bob dydd gan weithwyr allweddol, gan gynnwys gwybodaeth megis y bwyd a fwytawyd, cwsg, gweithgareddau a thymer yn gyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion unigol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae’r plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd lliwgar, eang a gweddol lân. Mae ystafelloedd dynodedig ar gyfer pob grŵp oedran ac mae pob un yn cynnwys teganau ac adnoddau, er nad yw pob un o'r rhain yn hygyrch i'r holl blant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau diogelwch y safle, y tu mewn a'r tu allan.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod arferion rheolaidd a thrylwyr ar waith i gefnogi amgylchedd diogel. Maent yn nodi, a chyn belled ag y bo modd, yn cael gwared â pheryglon i ddiogelwch plant.

Roedd y prif ddrws i'r adeilad ar glo drwy'r amser ac roedd ymwelwyr yn cael dod i mewn a gadael drwy ganiatâd y staff yn unig drwy system cydnabod olion bysedd. Gwnaethom lofnodi llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gweld ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ddyddiol. Cynhaliwyd asesiadau risg rheolaidd ar gyfer yr holl ardaloedd gan arweinwyr, y tu mewn a'r tu allan, yn ogystal â gwiriadau dyddiol gan staff yn eu hystafelloedd dynodedig. Gwelsom ardaloedd â charped a oedd angen eu glanhau oherwydd bod y plant yn bwyta a gwneud eu gweithgareddau crefftau yno. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod yr ardaloedd hyn â charped yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Roedd yr holl offer trydanol wedi cael profion dyfeisiau cludadwy ym mis Medi 2016. Roedd gan yr holl doiledau gyflenwad da o dywelion papur a sebon golchi dwylo.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel y rhan fwyaf o'r amser a bod systemau ar waith i wella hylendid a rheoli atal heintiau.

### 3.2 Pa mor dda mae’r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r feithrinfa'n groesawgar ac yn gyfeillgar ac mae digon o le yno i chwarae a dysgu dan do ac yn yr awyr agored.

Roedd y staff yn croesawu rhieni ac ymwelwyr wrth fynedfa'r dderbynfa. Roedd bwrdd gwybodaeth hefyd ar gael. Roedd arddangosiadau wal yn darparu cyfleoedd dysgu drwy iaith fathemategol, geiriau, llythrennau a labelu cyfarpar. Roedd y staff wedi trefnu byrddau a chadeiriau i ddarparu ardaloedd cymdeithasol ar gyfer amser byrbryd ac amser bwyd ac yn sicrhau bod ardaloedd ar gael lle gallai'r plant dreulio amser tawel neu gysgu. Y tu allan, roedd gan y plant fynediad i ardal amgaeedig â llawr diogel a hwyl gysgodi, yr oedd y ddwy eitem wedi cael eu prynu'n ddiweddar. Roedd arweinwyr wedi aildrefnu'r ardal chwarae i'r plant hŷn i sicrhau bod 'ardaloedd dysgu' ar gael. Fodd bynnag, nid oedd gan y plant fynediad i gyfarpar ac adnoddau yr oeddent yn gallu eu dewis fel y mynnent, megis gwneud marciau neu baentio’n rhydd. Dywedodd yr arweinwyr wrthym y byddant yn parhau i ddatblygu hyn ymhellach. Roedd gan y clwb ar ôl yr ysgol ystafell ddynodedig ag adnoddau

oedd yn briodol i oedrannau'r plant megis cerddoriaeth, gemau bwrdd, bandiau gwau, gemau cyfrifiaduron a bwrdd pŵl.

Mae’r arweinwyr yn datblygu ardaloedd i sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn addas i'r holl blant.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae’r arweinwyr yn darparu amrediad o adnoddau a theganau y tu mewn a’r tu allan. Maent yn briodol i oedran y plant ac yn hygyrch mewn rhai ardaloedd.

Roedd yr arweinwyr wedi rhoi teganau ysgogol a oedd yn addas i’r oedran yn yr ystafell fabanod. Roedd yr adnoddau'n cael eu storio mewn unedau lefel isel, er nad oedd y plant yn cael eu hannog i gael mynediad iddynt yn annibynnol. Roedd adnoddau'n cynnwys byrddau a chadeiriau bach, dewis o lyfrau, ac ardal dawel â chlustogau, cornel gartref, ffrâm ddringo, chwarae byd bach, dillad gwisgo i fyny a chyfarpar crefftau. Roedd gan yr ystafell fabanod ddetholiad o ddoliau a phramiau, teganau synhwyraidd, ciwbiau pentyrru, teganau meddal, abacws, offer bownsio babis, offerynnau cerdd a ratlau.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar yn ddigonol.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn Lots of Tots yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal yn dda a bod ganddo ethos o ganolbwyntio ar anghenion y plant. Mae'r staff yn cael eu cefnogi gan arfarniadau rheolaidd a thrwy broses ymsefydlu drylwyr cyn dechrau. Mae gan y gwasanaeth bartneriaethau da â'r gymuned oherwydd ei fod yn rhannu'r adeilad â grwpiau eraill.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan arweinwyr synnwyr eglur o bwrpas ac mae'r datganiad o ddiben yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth. Maent yn cefnogi'r tîm o staff hyd eithaf eu gallu ac yn sicrhau bod y polisïau'n cael eu diweddaru a'u rhannu.

Roedd gan y datganiad o ddiben nodau clir, a oedd yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol i rieni ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperid yn gywir. Gwelsom ffeil bolisi gynhwysfawr yr oedd yr arweinwyr wedi'i hadolygu'n ddiweddar a'i rhannu â'r staff. Fodd bynnag, dywedodd yr arweinwyr wrthym fod eu gallu i gynnal yr holl dasgau dynodedig yn gyfyngedig oherwydd mai rhan-amser yn unig roeddent yn gweithio a'u bod yn teimlo bod eu gallu i gefnogi'r staff yn llawn wedi'i gyfyngu. Fodd bynnag, dywedodd yr holl staff y siaradom â hwy yn ystod yr arolygiad eu bod wir yn mwynhau gweithio yno a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y person â gofal yn ogystal â'r unigolyn cyfrifol.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol yn y gwasanaeth hwn ond mae angen mwy o amser i sicrhau bod y staff yn cadw at bolisïau'r gwasanaeth.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan arweinwyr systemau ar waith ar gyfer casglu safbwyntiau'r plant a'r rhieni.

Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau adolygiad ansawdd gofal a oedd yn myfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf a'r cynlluniau ar gyfer y 12 mis nesaf. Gwnaethom ddarllen ymatebion cadarnhaol, a oedd yn ategu'r gofal a roddid. Dywedodd yr arweinwyr wrthym y byddant yn dechrau cynllun gwobr byrbryd iach yn y dyfodol agos a'u bod yn gweithio tuag at wobr sicrhau ansawdd genedlaethol. Mae'r gwasanaeth wedi ennill gwobr gweithle bach genedlaethol a gwobr cyn-ysgol gynaliadwy. Dangosodd yr arweinwyr eu bod am wella ymhellach a'u bod yn chwilio am y cynllun nesaf.

Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi adborth ac yn ymrwymedig i gynllunio gwelliannau.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei staffio'n gywir a bod aelodau'r staff wedi eu lleoli'n briodol. Mae aelodau'r staff yn derbyn cefnogaeth dda ac yn cael eu hannog yn eu datblygiad personol.

Gwelsom ffeiliau staff a oedd yn dangos bod aelodau'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol yn ogystal â hyfforddiant i ddatblygu eu gyrfaoedd. Roedd tri aelod o staff wedi cwblhau eu cymhwyster Lefel 5 ac roedd y person â gofal wedi dechrau ar gwrs hyfforddiant arweinyddiaeth yn ddiweddar. Roedd gan arweinwyr ethos cadarnhaol ar gyfer datblygu a gwella hyfforddiant staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo fel eu bod yn cael eu cefnogi gan yr arweinwyr a'u bod yn cael eu hannog a'u cefnogi o ran datblygiad personol. Yn dilyn unrhyw hyfforddiant staff, roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gwerthusiad ac adborth yn cael eu rhoi i arweinwyr ac aelodau eraill o'r staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol.

Rheolir ymarferwyr, staff ac adnoddau mewn modd effeithiol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr wedi meithrin perthnasau da â rhieni, y gymuned leol ac ysgolion.

Gwelsom fod trafodaeth ymlaciedig rhwng rhieni a staff wrth iddynt ollwng a chasglu eu plant. Anogwyd y rhieni i ddod â'u plant i'r feithrinfa yn hytrach na'u gadael wrth y drws. Gwnaethom siarad â chwe rhiant, a oedd yn ganmoliaethus iawn am y gwasanaeth. Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff yn gyfeillgar ac yn hawdd iawn mynd atynt. Dywedasant fod eu plant yn dwlu ar ddod ac yn gofyn i ddod ar y diwrnodau nad oeddent yn mynd. Dywedodd y rhieni wrthym fod y plant yn hoff iawn o aelodau penodol o staff. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod wedi cael eu gwahodd i noson rieni'n ddiweddar i drafod datblygiad eu plentyn yn y gwasanaeth. Mae'r feithrinfa'n mynd â'r plant ar ymweliadau rheolaidd i'r parc trotian lleol. Roedd yr arweinwyr wedi trefnu taith gerdded noddedig, ffair gwanwyn, ffair Nadolig, a 'brecwast gyda Siôn Corn' ar ddiwrnod penwythnos i'r plant a'u teuluoedd.

Mae'r gwasanaeth wedi datblygu partneriaethau cadarnhaol gyda'r rhieni a'r gymuned leol.

## 5. Gwelliannau mae eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Yn dilyn yr arolygiad blaenorol, cafodd y gwasanaeth wybod nad oedd yn cydymffurfio oherwydd nad oedd system ganddo ar waith i fonitro ansawdd y gofal, nid oedd ganddo ddatganiad wedi'i ddiweddaru, ac nid oedd wedi cwblhau asesiadau risg o'r amgylchedd.

Cadarnhaodd yr arweinwyr fod yr uchod ar waith yn dilyn yr arolygiad.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell bod arweinwyr yn sicrhau'r canlynol:

- bod yr holl staff a'r plant yn golchi eu dwylo cyn amser bwyd ac ar ôl gwneud gweithgareddau anniben
- bod y plant yn ymwneud â pharatoi'r byrbryd
- bod y polisi a'r weithdrefn newid cewynnau'n cael eu hatgyfnerthu â'r holl staff
- bod dŵr ar gael ar bob achlysur a bod y staff yn cael eu hatgoffa i fod yn ymwybodol o gynnig dŵr yn rheolaidd i'r plant iau
- bod detholiad ehangach o weithgareddau ac adnoddau ar gael ac yn hygyrch i'r plant
- bod y plant yn cael eu hannog i fod yn annibynnol ac i gwblhau eu gwaith eu hunain wrth wneud gweithgareddau crefftau

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau oedd hwn.

- Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 20 Mawrth 2018 am gyfanswm o bum awr a hanner a rhoi adborth dros y ffôn am hanner awr ar 29 Mawrth 2018
- Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal roeddent yn ei dderbyn yn Lots of Tots ar adegau gwahanol drwy gydol y dydd gan ddefnyddio'n hofferyn 'SOFI' i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperid gan y staff
- Gwnaethom siarad â nifer o blant a staff yn ystod y dydd
- Gwnaethom siarad â chwe rhiant/gofalwr
- Gwnaethom edrych ar wybodaeth a dderbyniwyd fel rhan o'r datganiad hunanasesu gwasanaeth
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau a pholisïau, gan gynnwys ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, polisïau a gweithdrefnau, asesiadau risg, ymarferion tân, a dyddiaduron dyddiol

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Unigolyn cyfrifol | Leonard Preece |
| Personau â gofal | Anna Rowlands<br>Emily Stewart |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 52 |
| Ystod oedran y plant | 0 – 11 oed |
| Oriau agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7.30am a 6pm |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Hydref 2015 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 20 Mawrth 2018 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant. |
| Gwybodaeth ychwanegol: | |